Eich cyf / Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date:07.12.22

Rhif union / Direct dial:

Geraint Davies
Pennaeth Addysg
Head of Education

Annwyl Rieni/Gofalwyr	Dear Parents/Carers
Cynnydd yn nifer yr achosion o'r dwymyn goch a chlefyd streptococol ymledol yn 2022 Gan fod y pwnc hwn wedi bod yn y cyfryngau cenedlaethol dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi cyhoeddi canllawiau i bob ysgol yn seiliedig ar gyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn amgáu rhywfaint o wybodaeth allweddol i chi. **Arwyddion a symptomau'r dwymyn goch** Mae'r dwymyn goch, a elwir weithiau'n *scarlatina*, yn glefyd heintus sy'n cael ei achosi gan facteria streptococws grŵp A (GAS) (a elwir hefyd yn *Streptococcus pyogenes*). Mae'n heintus iawn a gellir ei ddal drwy gysylltiad uniongyrchol ag unigolyn sydd wedi'i heintio neu drwy'r aer o ddiferion peswch neu disian. Symptom nodweddiadol y dwymyn goch yw **brech binc mân ar hyd y corff sy'n teimlo fel papur gwydrog i'w gyffwrdd**. Mae symptomau eraill yn cynnwys **tymheredd uchel, gwyneb gwritgoch a thafod coch, chwyddedig**. Mae'r driniaeth yn syml ac fel arfer mae'n cynnwys rhoi cwrs o wrthfiotigau penisilin.	**Increase in scarlet fever and invasive streptococcal disease in 2022** As this subject has been in the national media over recent weeks, we have issued guidance to all schools based on advice from Public Health Wales and enclose some key information for you. **Signs and symptoms of scarlet fever** Scarlet fever, sometimes called *scarlatina*, is an infectious disease caused by group A streptococcus (GAS) bacteria (also known as *Streptococcus pyogenes*). It is highly infectious and can be caught through direct contact with an infected person or through the air via droplets from coughs or sneezes. The characteristic symptom of scarlet fever is a **widespread, fine pink-red rash that feels like sandpaper to touch**. Other symptoms include a **high temperature**, a **flushed face** and a **red, swollen tongue**. Treatment is straightforward and usually involves a course of penicillin antibiotics.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i'ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma'n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.
Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so.
For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.
We welcome correspondence in Welsh. There will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.

Cymhlethdodau'r dwymyn goch a'r haint streptococol

Nid yw'r rhan fwyaf o achosion o'r dwymyn goch yn achosi unrhyw gymhlethdodau, yn enwedig os yw'r cyflwr yn cael ei drin yn iawn. Fodd bynnag, gall cymhlethdodau ddigwydd yn ystod cyfnod cynnar y clefyd, gan gynnwys haint yn y glust, casgliad yn y gwddf, sinwsitis, niwmonia a llid yr ymennydd. Mae cymhlethdodau prin iawn yn cynnwys clefyd crydcymalau/gwynegon, niwed i'r arennau, niwed i'r iau, haint esgyrn, gwenwyn gwaed a syndrom sioc wenwynig a allai beryglu bywyd.

Fel mae'r cyfryngau wedi nodi, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o glefyd difrifol sy'n cael ei achosi gan y bacteriwm hwn (heintiadau streptococol grŵp A ymledol) yn niwedd 2022, gan gynnwys rhai achosion angheuol mewn plant. Gall y clefyd ymledol ddigwydd heb i berson fod wedi cael y dwymyn goch neu ddolur gwddw yn gyntaf. Mae arwyddion cynnar y clefyd ymledol yn cynnwys: **tymheredd uchel, poenau cyhyrol difrifol, dolur penodol mewn cyhyrau, neu gochni o gwmpas clwyf**. Os oes unrhyw bryderon am y clefyd ymledol, yna rhaid cael cyngor meddygol brys.

- Bydd ysgolion a lleoliadau yn dilyn yr argymhellion a amlinellwyd gan ICC, yn unol â'r canllawiau isod:
- Bydd staff yn ymwybodol o'r posibilrwydd o'r haint hwn mewn plant sy'n mynd yn sâl â thymheredd, dolur gwddf neu frech
- Cynghorir rhieni plant sy'n sâl i gael cyngor meddygol ar gyfer diagnosis a thriniaeth
- Dylai person sydd â'r dwymyn goch beidio mynychu'r ysgol/lleoliad am

Complications of scarlet fever and streptococcal infection

Most cases of scarlet fever cause no complications, especially if the condition is properly treated. However, complications in the early stages of the disease can include ear infection, throat abscess, sinusitis, pneumonia and meningitis. Very rare complications include rheumatic fever, kidney damage, liver damage, bone infection, blood poisoning and toxic shock syndrome which can be life-threatening.

As the media have reported, there has been an increase in severe disease caused by this bacterium (invasive group A streptococcal infections) in late 2022, including some fatal cases in children. Invasive disease may occur without a person having had scarlet fever or sore throat first. Early signs of invasive disease include h**igh fever, severe muscle aches, local muscle tenderness, or redness at the site of a wound**. If there are any concerns about invasive disease, then urgent medical advice must be sought.

- Schools and settings will be following the recommendations outlined by PHW, as per guidance below:
- Staff will be aware of the possibility of this infection in children who become ill with a fever, sore throat or rash
- Parents of unwell children will be advised to seek medical advice for diagnosis and treatment
- A person with scarlet fever should withdraw from schools/setting for 24 hours after the commencement of appropriate antibiotic treatment
- Where there are 2 or more cases of scarlet fever in a setting/school

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i'ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma'n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.
Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so.
For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.
We welcome correspondence in Welsh. There will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.

24 awr ar ôl i'r driniaeth wrthfiotig briodol ddechrau • Pan fo dau achos neu fwy o'r dwymyn goch mewn lleoliad/ysgol o fewn yr un cyfnod o 10 diwrnod, bydd ysgolion/lleoliadau yn hysbysu ICC • Gall hylendid dwylo da ac osgoi lledaenu diferion anadlol (fel gyda'r ffliw- "ei ddal, ei daflu, ei ddifa") helpu i atal yr haint rhag lledaenu Gobeithiaf fod hyn yn rhoi sicrwydd bod neges gyson ymhlith ysgolion a lleoliadau a bod y wybodaeth uchod yn eich cefnogi, fel rhieni/gofalwyr o'r camau priodol i'w cymryd pe bai gan eich plentyn symptomau neu ddiagnosis o'r dwymyn goch neu haint streptococol. Ceir rhagor o fanylion yn Y Dwymyn Goch - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)	within the same 10-day period, schools/settings will inform PHW • Good hand hygiene and avoidance of spread of respiratory secretions (as per influenza- "catch it, bin it, kill it") can help to prevent the spread of infection I hope that this provides reassurance that there is a consistent message amongst schools / settings and that the information above supports you, as parents/carers of the appropriate action to take should your child have symptoms or a diagnosis of scarlet fever or streptococcal infection. Further details can be found at Scarlet Fever - Public Health Wales (nhs.wales)

Geraint Davies
Pennaeth Addysg
Head of Education

Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
Ffôn: 01824 708020
e-bost: geraint.davies@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Denbighshire County Council
PO Box 62
Ruthin
LL15 9AZ
Phone: 01824 708020
e-mail: geraint.davies@sirddinbych.gov.uk
Website: www.denbighshire.gov.uk

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i'ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma'n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.
Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so.
For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.
We welcome correspondence in Welsh. There will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.